

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer
Bethan Roberts
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar

Nos Iau 21 Ionawr 2021 am 18.30

Oherwydd Covid-19 cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Mair Pierce Owen

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Lowri Jones

- 1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Iwan Hywel.
Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith ac Angharad Williams.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

- 3.1** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – y Clerc wedi derbyn cadarnhad bod yr contractwr yn gobeithio cwblhau'r gwaith erbyn diwedd y mis. Dangoswyd lluniau o'r lloches bws yn y gweithdy.
- 3.2** Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig - Y Clerc wedi ysgrifennu llythyr cwyn. Derbyniwyd ymateb gan Dylan Wynn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau. Nodwyd bydd Cyngor Gwynedd yn trefnu bod cynllun fwy pendant yn cael ei wneud o fesuriadau tawelon traffig fydd yn cynwys dyluniadau a chostau manwl. Rhagwelwyd y bydden yn derbyn copi ddrafft o ddyluniad y cynllun cyn ddiwedd mis Ionawr.
- 3.3** Llecyn Tir, Bont Twr – Disgwyl ymateb gan Jo Davies, Rheolwr Ystadau Breedon Group cyn mynd ymlaen i ddanfon y ffurflen, y rheolwr ar cyfnod seibiant oherwydd cofid-19 (furlough). Clerc i gael diweddariad.
- 3.4** Gyli ym Mhentref Llandygai angen ei lanhau – Cyng. Dafydd Owen i holi Cyngor Gwynedd.
- 3.5** Mynediad i Lon Las Ogwen ger Garej Pandy – Mae'r bolard bellach wedi gael ei osod, ond nid yw'r bolard yn yn weladwy iawn. Cyng. Dafydd Owen wedi codi'r mater gyda Cyngor Gwynedd. Y Clerc i gysylltu eto hefyd.

- 3.6 'Knotweed' ger y Parc yn Mynydd Llandegai -. Cyng. Dafydd Owen i drafod y mater gyda'r perchennog.
- 3.7 Adroddwyd fod dim arwyddion ar hyd Llwybr Rhif 3 – swyddog llwybrau wedi ymateb i gadarnhau bydd arwyddion a giatiau newydd yn cael ei rhoid ar y llwybr. Cyng. Dafydd Owen i atgoffa'r swyddog llwybrau.
- 3.8 Problemau gyda gyrrwyr bws methu gweld pobl yn yr arhosfan bws ger Pant yr Ardd oherwydd nifer fawr o geir yn parcio ar hyd o ffordd. Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd am marcio'r ffordd i wneud yr arhosfan yn fwy weladwy ac i atal pobl rhag barcio yn y man hwn. Dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i ofyn am ddiweddariad.
- 3.9 Tipio anghyfreithlon ar hyd lon Dinas – Cytunwyd y bydd Cyng. Dafydd Owen yn gwneud cais am arwyddion i'w rhoi ar y safle. Cyng. Iwan Hywel heb dderbyn ymateb gan swyddog iechyd a'r amgylchedd yn Nghyngor Gwynedd. Adroddwyd bod Stad y Penrhyn am glirio'r ysbwriel erbyn y 27 Ionawr 2021.
- 3.10 Draen wrth Lon y Grug wedi gael sylw yn dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd, ond nid oedd y draeniau eraill wedi gael sylw ar y run pryd. Yn dilyn cyfathrebiad ychwanegol gan Cyng. Dafydd Owen, dychwelwyd i glirio'r holl ddraeniau eraill, ond yn dilyn mwy o law trwm, mae'r draeniau wedi'u blocio eto. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd fod angen glanhau'r draeniau eto. Y Clerc hefyd i nodi fod angen glanhau'r gylis ger Ganolfan Tregarth, a Cyng. Lowri Jones i ddanfôn llun o draen wrth ochr Ysgol Tregarth i'r Clerc.
- 3.11 Gofalwr Neuadd Talgai wedi colli goriad i hysbysfwrdd Llandygai – nid oes oriad yn y swyddfa, y Clerc i gysylltu eto gyda'r cwmni'r hysbysfwrdd i holi am un arall.
- 3.12 Problemau gyda baw ci yn Nhregarth – Cyng. Dafydd Owen i holi am arwyddion ychwanegol i godi ymwybyddiaeth.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2021'

Cyflwynwyd: Gorchymyn creu llwybr cyhoeddus Ystad Penrhyn ger Bangor – penderfynwyd cefnogi'r cynlluniau.

Cyflwynwyd: Breedon Group – Ymgynghori cyn ymgeisio am ganiatâd cynllunio – Chwarel y Penrhyn – y Cyngor i drafod eto yn y cyfarfod nesaf, yn dilyn cyfarfod Cyswllt Chwarel Penrhyn. Cynrychiolwyr y cyfarfod i adrodd yn ôl i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

5. Gwaith y mis

5.1 Llwybrau angen sylw, Cyng. Dafydd Owen i gysylltu gyda'r contractwr.

5.2 Beiciau Modur yn tresmasu ar Gwaun Gynfi. Cyng. Dafydd Owen i holi Cyngor Gwynedd a Cyfoeth Naturiol Cymru os oes bosib gael giat newydd yn y fynediad o Tan y Bwlch, i atal mynediad i'r beiciau yn y dyfodol.

5.3 Cais Cynllunio, Coed Wern, Glasinfyn – clirio sylweddol o goed ar y safle yn y dyddiau diwethaf, Cyng. Dafydd Owen i wneud ymholiadau gyda'r adran cynllunio.

5.4 Nodwyd Cyng. Lowri Jones fod cynnwys yr adroddiad llifogydd Mynydd Llandygai yn hynod o wan. Y Clerc i ail-gylchredeg yr adroddiad i ofyn am sylwadau, ac yno ei danfon ymlaen at YGC.

5.5 Holiadur Treth Cyngor Gwynedd – y Cyngor yn cefnogi'r cynnig, Cyng. Iwan Hywel i ymateb ar rhan y Cyngor a'i ddanfôn ymlaen at y Clerc.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth – Biniau angen cael ei casglu gan Cyngor Gwynedd, Cyng. Dafydd Owen i drefnu. Soniwyd eu bod yn gobeithio datblygu'r ardd fach yn y cefn ar gyfer yr ysgol feithrin.

7. Archeb 2021-22

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £26,363.

8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

8.1 Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Rhagfyr. Derbyniwyd yr adroddiad.

8.2 Rheoli Risg: y Clerc i gylchredeg y cofrestr risg yn fisol a'i hadolygu yn ystod y cyfarfod.

9. Taliadau

Dim.

10. Penderfyniadau Cynllunio

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C20/0267/16/DT

Bryn Llys, Pen Y Groes, Tregarth,
Estyniad cefn unllawr.

Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau.

C20/0418/16/LL

Bryn Gwalchmai, Mynydd Llandegai
Cais ar gyfer dymchwel stabl a chodi
uned wyliau hunan gynhaliol yn ei le
ynghyd a chreu ardal parcio
cysylltiedig.

Penderfyniad: Gwrthodwyd

11. Ceisiadau Cynllunio

C20/0956/16/LL

Bodorgan, Mynydd Llandygai
Cais deiliad ty i godi estyniad unllawr
to gwastad i du blaen yr eiddo ac
ystafell haul gwydr yn y cefn.

Penderfyniad: Dim sylwadau.

12. Unrhyw fater brys arall

12.1 Seddi Gwag – y Clerc wedi hysbysu'r seddi - dyddiad cau 5ed Chwefror, 2021.